Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDDU DYFED-POWYS
POLICE AND CRIME COMMISSIONER

# ADRODDIAD / TAFLEN CRYNHOI PENDERFYNIAD

**DIBEN: PENDERFYNIAD COMISIYNYDD – CYF. DLI 035**

**Amseru: Arferol**

**Teitl: Cyfraniad at Ymchwilwyr Ariannol – Strwythur SCHTh**

**Categori Penderfyniad / Effaith Maes Busnes:** e.e. Prif Ddeddfwriaeth, Gofyniad Statudol, Cyllid, Perfformiad, Cwynion ayyb. (diwygiwch fel sy'n briodol)

**Sefydliadol**

**Crynodeb Gweithredol:**
Mae'r penderfyniad hwn yn ymwneud â strwythur SCHTh, sydd, ers 1 Ebrill 2017, yn cynnwys personél ystadau a oedd yn cael eu cyflogi gynt gan y Prif Gwnstabl (cyfeiriwch at gofnod penderfyniad DLI 030).
Hefyd, diwygiwyd y strwythur i gydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol a amlinellir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol sy'n cyfeirio at ddyletswyddau'r Pennaeth Staff fel pennaeth staff y Comisiynydd. Rhoddwyd sylw hefyd i ganllawiau a gyhoeddwyd mewn perthynas â rôl y Prif Swyddog Ariannol sy'n awgrymu y dylai'r daliwr swydd adrodd yn uniongyrchol i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu.

**Argymhelliad:**

Diwygir strwythur SCHTh er mwyn adlewyrchu newidiadau gyda throsglwyddo personél ystadau i gyflogaeth CHTh a gofynion deddfwriaethol.

**Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys**

Cadarnhaf fy mod wedi ystyried a oes gennyf unrhyw ddiddordeb personol neu sy'n rhagfarnu yn y mater hwn a fy mod wedi gwneud y penderfyniad arfaethedig yn unol ag Egwyddorion NOLAN ar gyfer Ymddygiad mewn Bywyd Cyhoeddus.

Rwy'n cymeradwyo'r cais uchod / Nid wyf yn cymeradwyo'r cais uchod / Nodaf y wybodaeth o fewn yr adroddiad (dileer fel y bo'n briodol).

**Llofnod:** Dafydd Llywelyn **Dyddiad: 06/04/2017**